

'TANBEIDRWYDD SÊL AC YNNI EISTEDDFODOL':
YSGOLION BARDDOL ABERDÂR*

Braint yn wir yw cael fy ngwahodd i fod â rhan yn yr achlysur arbennig hwn, achlysur arbennig oherwydd y mae dathlu deublyg, dwbl yma yn Aberdâr eleni. Dathlu canmlwyddiant a hanner sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol fodern, fel y dywedir, yn 1861 sydd wedi'n tynnu ni at ein gilydd heno, ond na foed inni anghofio ein bod hefyd yn dathlu deugeinfed pen-blwydd cymdeithas Hanes Lleol Cwm Cynon, cymdeithas sy'n dal yn fywiog ei gweithgareddau a'i chyhoeddiadau.¹ Nid yw cyswllt y ddau ddathlu mor bell â hynny oddi wrth ei gilydd ar un olwg oherwydd un elfen yn y brwdfrydedd a amlygwyd ar y pryd o blaid eisteddfod 1861, un elfen yn y penderfyniad i sicrhau y byddai hon yn ddigwyddiad llwyddiannus ac yn glod i'r cwm, a hynny er gwaethaf pob argyfwng ac anffawd annisgwyl,² un elfen yn hyn oll oedd yr ymwybod byw â hanes llenyddol y fro. Dyma dref a dyma bentrefi a oedd yn gwybod fod ganddynt hanes llenyddol i ymhyfrydu ynddo. Dyna oedd thema ysgrif gan Nathan Wyn yn y cylchgrawn poblogaidd, *Y Geninen* cyfrol 18, yn 1900, td. 86-8, yn hel atgofion am hen eisteddfodau ac yn benodol Eisteddfod Genedlaethol 1861 pan oedd ef yn wŷr ifanc tua'r 20 oed. Fel hyn mae'n agor ei atgofion:

Anaml y gwelwyd unrhyw ardal o'i safle a'i maintioli wedi arddangos mwy o danbeidrwydd sêl ac yni eisteddfodol na thref Aberdâr – yn arbennig felly yn ystod yr haner olaf o'r ganrif bresennol [*hynny yw, y bedwaredd ganrif ar bymtheg*].

A hyd yn oed yn 1940 gwelai Ab Hefin hi'n dda i restru yn ei gerdd 'Er Cof' yng ngorsedd cyhoeddi

* Darlith a draddodwyd yn ysgol Rhyd-y-waun, Aberdâr, 21 Medi 2011. Cedwais at arddull lafar y ddarlith.

1 Y mae Aberdâr wedi bod yn ffodus yn ei haneswyr lleol, o D. M. Richards a John Davies hyd W. W. Price, R. Ifor Parry a John F. Mears, a da gweld fod yr olyniaeth honno'n parhau.

2 Y Sadwrn cyn yr eisteddfod chwythwyd y Babell i'r llawr a bu rhaid defnyddio neuadd y farchnad. Ond hyd yn oed cyn hynny yr oedd Carw Coch, un o brif hyrwyddwyr yr wyl wedi torri ei goes pan wylltiodd 'ebolyn ifangc' wrth iddo ei arwain i Ffair y Waun, damwain a fu'n destun cerddi gan amryw o feirdd eisteddfodol Morgannwg. Dengys yr englynion, cywydd a'r tribannau hyn natur y gymdeithas agosatoch a fodolai rhwng y beirdd a'i gilydd. Cyhoeddwyd hwy bob yn un ac un yn *Y Gwladgarwr* ym Mehefin a Gorffennaf 1861 ynghyd â diolch Carw Coch a cherdd rydd ganddo yn diolch i Mr David Edwards, Llaw-gelfyddydwr Gwaith Haiarn Abernant, am ddwy ffon gesail'. Cyhoeddwyd y cerddi gan L.N. Williams, Ap Carw Coch, *Cynnyrchion y Beirdd ar adeg Damwain i'r Carw Coch 1861*, Aberdâr, tua 1900; gweler hefyd *Y Geninen* 1900, td. 87.

Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar, enwau tua phymtheg o feirdd y cwm ddyddiau a fu.³ Wrth gwrs ei fod yn ymhyfrydu yn enwau'r beirdd ac yn ymfalchïo yn yr hanes, ond uwchlaw popeth yr hyn a wna Ab Hefin yw tanlinellu a gwarchod gwybodaeth am yr olyniaeth farddol a'r diwylliant a oedd ynghlwm wrth yr olyniaeth honno.

Nid adrodd hanes llenyddol y cwm yw fy mwriad heno, hyd yn oed pe bawn yn gallu ymgymryd â'r dasg honno (tasg y mae dirfawr angen ei chyflawni), ond yn syml, yr hyn yr hoffwn geisio ei wneud yw ystyried y syniad yma o olyniaeth, beth oedd yn porthi'r ymwybod yma o ddilyn ôl traed rhagflaenwyr, ymwybod a oedd mor ganolog yn y gwaith o feithrin a dysgu'r grefft farddol, ac yn fwy creiddiol, wrth drosglwyddo'r syniad o ddiwylliant bro o'r naill genhedlaeth i'r llall. Ni fyddaf yn enwi mwy na mwy o feirdd a llenorion,⁴ enghreifftiau a fydd gennyf. Nid wyf am honni ychwaith fod yma feirdd mawr a cherddi ysblennydd, neu fod hanes llenyddol y cwm yn eithriadol; drych ydyw o ddiwylliant gwerin weithfaol y cymoedd, diwylliant cyfoethog o amlweddog y gallwn ymfalchïo ynddo. Ond wedi dweud hynny, y traddodiad llenyddol swyddogol, fel petai, a fydd gennyf dan sylw yn bennaf, y traddodiad a oedd ynghlwm wrth yr eisteddfodau. Yr oedd yma draddodiad arall, y baledwyr pen-ffair a oedd mor amlwg yn Aberdâr, ond gwedd wahanol ar ddiwylliant y werin a gynrychiolir ganddynt hwy.

I ddychwelyd at y traddodiad eisteddfodol felly. Sut oedd hi yma yn y blynyddoedd yn arwain at 1861?

Ddiwedd y ddeunawfed ganrif a thrwy ddegawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ardaloedd anghysbell a diarffordd oedd blaenau'r cymoedd hyn – hardd ond anodd eu cyrraedd. Pentref bychan iawn oedd Aberdâr, clwstwr o dai yng nghyffiniau eglwys y plwyf ar lawr y dyffryn, a ffermydd ac ambell fwthyn ar lethrau'r brynïau yn yr hen randiroedd. Ond yr oedd

3 *Cywyddau Ap Hefin* (Llandysul, 1946), 36-7.

4 Y mae ar gael amryw restrï o enwau, e.e. D. M. Richards yn *Aberdare Almanack* 1896, 1- 61, E. J. Williams, 'Llenorion Aberdâr' yn *Aberdare's Big Week, Official Souvenir Programme* (1930), 47-51, a bywgraffiaduron mwy sylweddol gan Ben Morus, *Enwogion Aber Dâr* (Llanbedr-Pont-Steffan, 1910) a'r anhepgor *Cyfoeth Cwm* (Abercynon, 1965) gan D. Jacob Davies.

arwyddion yn y tir o'r newid mawr a oedd ar ddigwydd wrth i ddiwydiannu ddechrau ei amlygu ei hun yn y gweithfeydd haearn newydd – ar Hirwaun yn 1780 a 1818, ac yna yn Llwytgoed (1799), Abernant (1802), ac wedyn ar y Gadlys (1820) ac yn Aberaman (1848). Gyda'r diwydiannu a'r twf cyson yn y boblogaeth a ddaeth yn ei sgil dyma ddechrau codi strydoedd (neu efallai'n well, resi – rhestrau yn iaith y fro) o dai, ysgol, rhyw lun ar ffyrdd a chamlas, ac ambell gapel ymneilltuol at yr Hen Dŷ Cwrdd Undodaidd a sefydlwyd yn 1751 ac a oedd yn arwydd o'r hen oes – y cyfan yn gyfleustra digonol, os cyntefig, i boblogaeth nad oedd wedi tyfu o 1486 yn 1801, a 3961 yn 1831, ond i 6741 hyd yn oed yn 1841. Dros y deng mlynedd nesaf neidiodd y boblogaeth mewn modd arswydus o syfrdanol i 14,998 yn 1851 a mwy na dyblu a dal i dyfu dros yr ugain mlynedd nesaf, i 32,299 yn 1861, a 37,704 yn 1871. Nid yw'n anodd esbonio beth a oedd yn digwydd.

Agorodd Matthew a Thomas Wayne, meistri gwaith haearn y Gadlys, bwll glo yr ochr arall i'r cwm, yn Abernant-y-groes, Cwmbach, yn 1837 ac yna, yn 1842 ac 1850, rai eraill yn nes at y gwaith haearn. Pwll glo 1837 oedd y cyntaf yn y cwm ond dilynwyd Thomas Wayne yn ei fenter gan arloeswyr eraill o 1840 ymlaen a welai bosibiliadau diwydiant glo nad oedd yn dibynnu ar y gweithfeydd haearn a fyddai'n tynnu at derfyn eu hoes gyda'r diffyg lleol yn y defnyddiau crai a'r newid ym mhrosesau cynhyrchu haearn. Caewyd y diwethaf ohonynt yn 1875. Suddwyd pyllau glo ar hyd cwm Cynon a'r mân gymoedd eraill y llifai eu nentydd i afon Cynon ac yr oedd poblogaeth yn crynhoi yn yr hen randiroedd ac yn y pentrefi newydd a oedd yn codi o amgylch y pyllau. Daeth y rhain yn ganolfannau i gymdogaethau newydd a thyfodd Aberdâr ei hun yn dref ac yn ganolfan fasnachol erbyn yr 1860au, er ei galw 'y Pentra' gan drigolion y pentrefi a oedd yn gylch o'i hamgylch, o Lwytgoed i Abernant a Chwmbach ar y naill ochr i'r afon, ac o Gwmdâr, Heolyfelin a'r Gadlys i Aberaman, Cwmaman, Cap-coch ac Abercwmboi ar yr ochr arall. Yr oedd D. Lewis yn grwtyn yn Aberdâr yn y blynyddoedd hyn, ac wrth hel atgofion meddai ef:

Yn y flwyddyn 1849, blwyddyn y Geri Marwol, a mi yn bum mlwydd oed, y dechreuodd fy nghydnabyddiaeth âg Aberdâr. Lle yn dechrau ymagor oedd y pryd hwnnw; a dylifai dynion yno wrth y cannoedd o bob cyfeiriad, yn enwedig o siroedd Caerfyrddin, Penfro ac

Aberteifi. Yn fuan gorchuddiwyd doldir teg Maes y Dref, a llechwedd ddymunol ochr y Graig, a llanerchau gwyrddleision ereill, gan dai, cyfaddas i anghenion ac amgylchiadau y boblogaeth barhaus gynhyddol.⁵

Yn y cyfnod hwn, yn fras o 1840 hyd 1870, y codwyd ysgolion, eglwysi a chapeli, y sefydlwyd y strwythurau gweinyddol a dinesig angenrheidiol ac y crëwyd patrymau trafndiaeth ar hyd ac ar draws y cwm. Yr oedd bywyd yn anodd; gwaith tan ddaear yn drwm ac yn beryglus a ffrwydriadau'n rhan o fywyd;⁶ yr oedd amodau byw yn frwnt ac yn afiach.⁷ Ond yr oedd y gymdeithas yn ifanc, yn fywiog a byrlymus, ac yn ymwybod ei bod ar drothwy pethau mawr, fel y tystiodd Thomas Price, gweinidog dylanwadol Calfaria, eglwys y Bedyddwyr, wrth edrych yn ôl at ddechrau ei weinidogaeth yn 1845:

Yr oedd Aberdâr fel ardal yn myned i gynnyddu yn gyflym iawn – y trigolion yn amlhau – cymmydogaethau newyddion yn cyfodi – dyeithriaid lawer yn tyru i'r lle – y llanw moesol yn dyfod i mewn yn donau mawrion – adeg bwysig i eglwys a gweinidog – naill ai cymeryd gafael gref ar yr adeg, neu golli y cyfle am byth.⁸

yr un darlun, fel y gwelwch, ag a oedd gan D.Lewis. Yr oedd llawer o'r ysbryd radicalaidd a nodweddai hen gymdeithas y cylch wedi'i drosglwyddo i'r newydd fel nad yw'n gyd-ddigwyddiad mai yn y blynyddoedd hyn y gwelwyd sefydlu newyddiaduron megis *Y Gwron* (1854), gyda'i ddatganiad 'Ei egwyddor fydd perffaith ryddid Gwladwriaethol, Masnachol a Chrefyddol.... Nid ymosodwn ar ddim – ond ar ormes, twyll, ac annhrefn', *Y Gwladgarwr* (1858),⁹ yr *Aberdare Times* (1861) a gweisg megis rhai yr hen radical J.T.Jones (1854), Walter Lloyd (1856), a Jenkin Howell (1869), ac eraill yn 1858 ac 1866.¹⁰ Y mae'n werth dyfynu geiriau'r Athro Ieuan Gwynedd Jones:

When Aberdare claimed in 1867 that 'what we think today, Wales will think tomorrow', she was not idly boasting. ... Aberdare had become a provincial capital, and this by reason of [her] presses and opinion-forming newspapers.¹¹

5 'Llwybrau Adgof', *Cymru*, 40 (1911), 209-12.

6 Bu ffrwydrad mawr ym mhwl Blaengwawr 8 Mawrth 1861.

7 Ceir casgliad gwerthfawr o ddisgrifiadau cignoeth cyfoes o'r cwm mewn gwahanol gyfnodau yn D.L.Davies a Geoffrey Evans, goln, *The land your fathers possessed*, Cymdeithas Hanes Cwm Cynon, 2011, 17-114

8 Gweler Benjamin Evans, *Bywgraffiad y diweddar Barchedig T.Price, M.A., Ph.D.*, Aberdar, 1891, tda 38, 43.

9 Ar *Y Gwladgarwr*, gweler Huw Walters, *Cynnwrf Canrif* (Barddas, 2004), 100-83.

10 Ar hanes argraffu yn Aberdâr gweler *Cylchgrawn Cymdeithas Lyfryddol Cymru*, XI (1973-74), 1-53.

11 *The dynamics of politics in mid-nineteenth-century Wales*, Cardiff, 1971, td. 29.

Beth sydd a wnelo hyn â beirdd a bywyd llenyddol? Tystiolaeth D. Lewis yn ei atgofion oedd, 'Yr oedd Aberdâr, y pryd hwnnw, yn gartref llu mawr o feirdd a cherddorion, braidd yn fwy felly nag unrhyw dref yn y Deheudir', a thebyg yw sylw Bobi Jones yn ein dyddiau ni:

Aberdâr ar y pryd oedd, o bosib, y dref ddosbarth-gweithiol, o'i maint, fwyaf diwylliedig yn y byd. Yr oedd yn ferw o ddiwylliant: gweisg a'u cynnyrch, llenorion, corau, diwinyddion praff, cyfarfodydd diwylliannol, cartrefi lle yr oedd trafodaethau deallol praff.¹²

Dyma'r diwylliant gwerin y cyfeiriais ato gynnu, ac fel pob diwylliant, y mae'n ymwneud â gwneud bywyd cyfan.

Yr oedd un gwahaniaeth pwysig rhwng cymdeithas y gweithiau haearn a chymdeithas y pyllau glo a'i dilynodd. Cymry oedd llawer o arloeswyr y diwydiant glo a hanent o'r un math o gefndir â'u gweithwyr, mewnfudwyr, llawer ohonynt, o siroedd Morgannwg a gorllewin Cymru. Yr oeddynt yn dal yn feistri ac yn berchnogion ac nid oedd y berthynas â'u gweithwyr bob amser yn un esmwyth, ond yn y blynyddoedd hyn rhannent yr un diwylliant Cymraeg ac yr oedd gwŷr fel William Thomas, Samuel Thomas, Thomas Powell a'r ddau David Davies yn rhan o'r un gymdeithas ymneilltuol â'u gweithwyr. Tebyg mai David Williams, 'Alaw Goch',¹³ yw'r teip sy'n diffinio'r diwylliant cyffredin – y perchennog pyllau glo o gefndir gweithiol, yr eisteddfodwr, y bardd, y capelwr, a'i frawd yn cadw tafarn lle y cynhelid eisteddfodau. Cymdeithas ifanc, anturus, fyrlymus, effro ei meddwl ac yn ymateb i'w bywyd ei hun oedd hon. Ond er cymaint yr edrych ymlaen at ddyfodol (fel y synhwyrodd Thomas Price), yr oedd hefyd yn ymwybodol o orffennol diwylliant bywyd y parthau hyn fel na fu erioed yn gymdeithas ddiwreiddiau. Yr oedd cyd-wead o gyfryngau'n eu cysylltu â gorffennol y cwm a'r cyffiniau. Trwy'r cymdeithasau llenyddol, ond mwy na llenyddol hefyd gan fod iddynt wedd wleidyddol, wyddonol ymchwilgar, a'u heisteddfodau trosglwyddwyd yr ysbryd radicalaidd syniadol a oedd yn nodwedd yn yr hen gymdogaeth gyn-

12 *Barddas*, Medi/Hydref/Tachwedd, 2007, td. 14.

13 Golygwyd ei waith gan Dafydd Morganwg, *Gwaith barddonol Alaw Goch*, Caerdydd, 1903.

ddiwydiannol. Mewn tafarnau y câi'r cymdeithasau gartref a'r manau hynny, lawer ohonynt, dan ofal tafarnwyr a rannai yn y diwylliant hwn. Bu eisteddfodau yn y Swan, ynghanol tref Aberdâr, tua 1825-1830 ac Alaw Goch yn ennill gwobrau yn y dafarn hon a gedwid gan ei frawd. Cynhaliodd Cymreigyddion Bryn Hyfryd (y Mount Pleasant) ar Heolyfelin eu heisteddfod gyntaf yn 1837 (yn 1833 y sefydlwyd y gymdeithas) a cheidwad y tŷ hwn oedd Dafydd Llywelyn, gŵr y mae rhychwant ei ddiddordebau fel bardd, darlithydd a seryddwr yn awgrym o agenda yr hen gymdeithasau; mab iddo oedd Thomas Dafydd Llywelyn, y bardd a'r telynor, Llywelyn Alaw. Ac yn anad yr un gymdeithas arall, Cymreigyddion y Stag yn Heol Harriet lle y llywyddai'r tafarnwr William Williams, 'Carw Coch', cymdeithas a oedd yn wreiddiol yn Gymdeithas Rhyddymofynwyr¹⁴ ac a ddechreuodd gynnal eu cyfres hir o heisteddfodau yn 1841. Bu eisteddfod ddydd Nadolig 1840 yn Nhŷ'r Farchnad Aberdâr,¹⁵ ac yr oedd Cymreigyddion Llwytgoed yn cynnal eisteddfod fis Mawrth 1850. A thros y cwbl hofrai ysbryd aflonydd Iolo Morganwg y cawsai ei syniadau a'i 'gadair farddol' dir ffrwythlon yn y Blaenau hyn lle y bu ei gyfaill a'i gyd-fardd gorseddol Edward Ifan, Ton-coch, yn weinidog yr Hen Dŷ Cwrdd a lle roedd mab Iolo, Taliesin ab Iolo, yn cadw ei enw'n ir ac yn ysbrydoliaeth ym Merthyr Tudful a'r holl gylch eisteddfodol.¹⁶ Cyfeiriais gynnau at Nathan Wyn yn crynhoi ei atgofion am eisteddfod 1861. Ef a welodd fel y tyfodd yr eisteddfod honno allan o weithgarwch y cymdeithasau llenyddol. Meddai:

Tra yr oedd y ganrif eto yn dirf ac yn ieuanc, yn mhell cyn cyrhaedd canol oed, bodolai Cymdeithas cymmrodorion Heolyfelin, yr hon a gynhaliai ei gwyliau llenyddol gyda chysondeb a threfnusrwydd difwlch. Wedi hyny daeth eisteddfodau y Carw Coch i fod a dylanwad yn y dref a thrwy y wlad yn gyffredinol.¹⁷

Yr oedd y cymdeithasau a'u heisteddfodau yn cydio'r gymdeithas ddiwydiannol newydd â'r

14 Tebyg i hon fyddai Cymdeithas Lenyddol a Gwyddonol Aberdâr, The Aberdare Philosophical Society, 1837.

15 Ar y cymdeithasau hyn a'r Carw Coch yn arbennig gweler D. Leslie Davies, 'Llwybrau'r Carw: bywyd a chefnidir William Williams, Y Carw Coch, 1808-72', yn *Cwm Cynon*, gol. Hywel Teifi Edwards, Llandysul, 1997, 98-127. Hefyd, D. M. Richards. 'Hen eisteddfodau Aberdâr', *Rhestr eisteddfodau hyd y flwyddyn 1901*, Llandysul, 1914, xv-xxxii. Ceir gwaith Carw Coch yn L. N Williams (ei fab), gol., *Gweddillion Llenyddol ... William Williams (Carw Coch)*, Aberdar, 1908.

16 Gweler eto *Cwm Cynon*, td. 261-2. Ar Edward Ifan a diwylliant y cwm 'yn yr hen oesau', gweler R. T. Jenkins, *Bardd a'i gefndir*, Caerdydd, 1949.

17 *Y Genhinen* 1900, td. 86.

hen fywyd gwledig, yn fodd iddi fwrw golwg tuag yn ôl i fyd a oedd yn prysur fynd yn atgof ond yn ei galluogi hefyd i ennill symbyliad o'i phresennol. Cyhoeddwyd cyfansoddiadau eisteddfod 1853 Carw Coch yn y gyfrol *Gardd Aberdâr* (a gyhoeddwyd yng Nghaerfyrddin yn 1854) ac yn hon gwelir enghreifftio'r ddau gyfeiriad yn eglur. Y mae cyfoesedd y testunau i'w gweld yn nifrifoldeb y traethodau manwl ac ystyrllon ar rai o bynciau canolog y gymdeithas, megis ysbryd priodol dadleuon diwinyddol, swyddogaeth mudiadau lles, economeg a chyflogaeth, hunan-addysgu; yr oedd y cerddi yn y gyfrol yn ymwneud â thestunau 'barddonol' megis cariad, goleuni'r lleuad ac ati, rhai'n farwnadau, eraill yn codi o nodweddion bywyd beunyddiol, megis ymfudo, caledwaith y glöwr, ond y mae yma hefyd englynion sy'n mawrygu diwydiant a dyfeisiadau modern buddiol megis y peiriant codi (y 'lifting jack') a'r 'electric telegraph'.¹⁸ Law yn llaw â'r pynciau cyfarwydd hyn y mae yn y gyfrol elfen leol ddigamsyniol ac yn y fan yma daw'r beirdd lleol hwythau yn amlycach; bywgraffiad i'r arwr lleol Thomas Glyn Cothi, cyfaill Iolo a fuasai'n weinidog radical yr Hen Dŷ Cwrdd Undodaidd am ugain mlynedd hyd ei farw yn 1833, a bywgraffiad gan Carw Coch i un o hen gymeriadau ffraeth a 'gwreiddiol' y fro, Rees Lewis Lodwick, y töwr, ynghyd â'r ddau draethawd adnabyddus ar hanes y plwyf, y naill gan Thomas Llewelyn, 'Llywelyn Alaw', mab y Bryn Hyfryd,¹⁹ a'r llall gan J. T. Jones, 'Cynonwyson'. Y mae Rhagymadrodd *Gardd Aberdâr* yn egluro'r pwyslais yma ar edrych yn ôl:

Prif resymau y Pwyllgor dros ddwyn hyn o weithion [sic] drwy y wasg ydyw, eu bod wedi bwrw golwg hanesyddol o ganol y 18fed ganrif hyd yr un cyfnod yn y 19fed ganrif, yr hyn a obeithiant fydd yn llesol i'r dô sydd yn codi.

Ond nid y do honno yn unig a oedd ag angen y traethodau hyn. Yr hyn a geir yn y ddau draethawd, fel ym mywgraffiad Rees Lodwick, yw ymateb cymdeithas i'r cyfnewidiadau a oedd yn digwydd yn frawyclus o gyflym o'i hamgylch ac iddi ei hun. Maent yn cynnig angor, a hollol nodweddiadol o'r cyfnod hwn o drawsnewid yw disgrifiadau o'r hen fywyd gwledig a oedd yn dal o fewn cof amryw

18 Y mae'r ymagwedd hon yn amlycach, os rhywbeth, yn rhestr testunau eisteddfod 1840, e.e. Effeithiau dymunol y gweithiau haearn a chân o ddiolchgarwch i berchnogion y gweithiau haearn, *Rhestr eisteddfodau*, td. xviii.

19 Cyfieithwyd y traethawd i'r Saesneg gyda nodiadau helaeth gan D. L. Davies yn *Old Aberdare*, 2 (1982), 7-85; ar Llywelyn Alaw gweler tdau 16-20.

wrth iddo gael ei ddisodli gan y newydd. Y mae *Llanwynno* Glanffrwd yn enghraifft adnabyddus o thema sydd i'w chael mewn llawer llyfryn hanes lleol.²⁰ Ond nid hiraeth am a fu sy'n ysgogi'r disgrifiadau hyn o fywyd gwledig y cwm – nid oes fawr o gwyno am effeithiau diwydiant – ond yn hytrach ymgais sydd yma i sicrhau olyniaeth cymdogaeth gan geisio dal gafael yn yr hen fywyd amaethyddol tra'n derbyn yn eiddgar ddatblygiad tref newydd gyda'i hadeiladau eiconig, mewn cerddi megis yr englynion i'r Tŷ Marchnad, a chan rydd o 'Ganmoliaeth i Mr Richard Abraham am ei anturiaeth i godi Adeiladau yn Aberdâr, ar gynllun defnyddiol'.²¹

... Canfyddir eu huchder yn amlwg o bellder,
Fel clochdai clau wychder, nas sigler gan wynt,
Effeithia cawodydd fawr niwed i'r caerydd,
Ond heriant bob tywydd rhag arwydd eu hynt,
Can's nid ar y tywod mae'r sail wedi'i gosod,
Cadarnwych rhag dyrnod, mae'r gwaelod mor gref,
'Nol grym dealldwriaeth, ac eithaf saerniaeth,
Ar gynllun mor berffaith, cywreinwaith ceir ef. ...

Y mae'r beirdd a'r ysgrifenydd hwythau'n amlygu deupen yr olyniaeth hon. Ar un wedd, to newydd o feirdd a llenorion mewn cymdogaeth newydd yw cyfranwyr *Gardd Aberdâr* a'u cyfoeswyr. Yn eu plith mae'r genhedlaeth ganol oed, Alaw Goch (1809-63), Carw Coch (1808-72), Cawr Dâr (William Lewis, 1803?-79), a'r rhai ychydig bach yn iau, Eiddil Llwyn Celyn (George Lewis, 1826-58, brawd Cawr Dâr, beth bynnag yw arwyddocâd eu henwau barddol gwrthgyferbyniol), Eiddil Glan Cynon (J. T. Jones, 1820-62), William Morgan, 'y Bardd' (1819-78), Cynonwyson (T. J. Jones, 1822-88). Nid oes arbenigrwydd neilltuol yn perthyn i waith y rhain: yr oedd William Morgan yn englynwr digon effeithiol a gynganeddai'n rhwydd, canai Eiddil Glan Cynon yn urddasol a gyda sglein yn y mesurau caeth a rhydd, ond gallai Cynonwyson fod yn fwy ysmala pan ddewisai fod a lluniai ambell englyn gydag ergyd iddo:

I Glafdy Trecynon
(Adeiladwyd yn ymyl y fynwent)

Talent o waelod dwli – a fynnai,

20 Ar y thema hon gweler Trefor M. Owen, *'Llanwynno' a phortreadau bro*, Abertawe, 1982.

21 Gwaith Eiddil Glan Cynon ar fesur cainc draddodiadol, sy'n ein hatgoffa nad canu caeth ac englynion oedd unig fesurau'r beirdd hyn ond eu bod yn tynnu ar draddodiad arall yn ogystal.

Wrth fynwent gael codi
Clafdy i dlawd, frawd di-fri,
Luniwyd i'w digalonni.²²

Dyma rai o wŷr y berw eisteddfodol, yr oedd yr Eiddil a Chynonwyson ymhlith y rhai a sefydlodd Gymreigyddion y Carw Coch a bu Cynonwyson yn ysgrifennydd eisteddfodau'r Carw Coch am flynyddoedd; dyma ffyddloniaid y cymdeithasau, darllenwyr *Seren Gomer*, y cyfnodolyn a adroddai hanes bywyd llenyddol yr ardaloedd gan gysylltu'r cylchoedd amrywiol hyn â'i gilydd yn un gymuned ddiwylliannol; o blith y rhain y daeth sefydlwyr newyddiadur *Y Gwladgarwr*, a dyma'r garfan a fyddai'n llywio eisteddfod 1861. Brodorion o'r cwm oedd rhai ohonynt, megis Eiddil Glan Cynon a Chynonwyson, eraill yn do hŷn a ddaethai i'r cylch o ardaloedd cyfagos yng nghwm Nedd, Bro Morgannwg a Chefncoed-y-cymer, o ddyffryn Aman a sir Gaerfyrddin. Ond brodorion neu beidio, y mae eu tras farddol wedi'i gwreiddio ym mywyd diwylliannol y cwm yn y ganrif flaenorol. Y mae llinell ddi-dor ac uniongyrchol rhwng beirdd cyntaf yr hyn y gallwn ei alw bellach yn dref Aberdâr²³ a beirdd olaf taplas a gŵyl y cwm gwledig a'r bywyd a ddisgrifir yn nhraethodau *Gardd Aberdâr*. Yr oedd amryw o'r beirdd hyn, megis Carw Coch, Cynonwyson (yr olaf o'r siartwyr, meddid, a fuasai'n ysgrifennu i'w newyddiadur *Udgorn Cymru*) ac Eiddil Glan Cynon, yn bobl yr Hen Dŷ Cwrdd ac wedi drachtio o ffynhonnau'r radicaliaeth a'r siartiaeth yr oedd y gynulleidfa honno a'i gweinidogion yn eu hybu a'i meithrin yn yr 1830au a'r 1840au, syniadau a gâi eu mynegiant yn nechreuadau'r cymdeithasau llenyddol. Beirdd eu cyfnod, ie, ond yn olrhain eu tras yn ôl i genhedlaeth hŷn o feirdd megis Edward Thomas Edward(s) (tua 1760-1840), awdur cyfres o ddeuddeg o englynion disgrifiadol a darllenadwy ar 'Misoedd y flwyddyn a'u heffeithiau': e.e.

Mis Tachwedd a'i wedd a'i waith – ddaw eto'n
Ddiatal i'n talaith:
Hwn yw'r llew, yr hen a'r llaith,
A'i oer rym, a yrr ymaith.

Englyn priodol ddigon gan iddo farw pan gafodd ei ddal mewn storm ar y comin ym mis Tachwedd

22 Ceir peth o waith y beirdd hyn yn *Cymru* 14, 24, 25, *Cyfoeth Cwm*, tdau 39-45. Ar Cynonwyson a'i waith gweler *Cymru*, 55 (1918), 5-8.

23 R. T. Jenkins, 'Glyn Cynon', *Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Aberpennar Awst 6-8, 1940*, td. 13.

1840 wrth iddo ddychwelyd o'r Hen Dŷ Cwrdd i'w gartref ym Mhant-y-fflash (Glan Road),²⁴ Gwilym Ddu Glan Cynon (Y Dryw [Bach], Richard Williams, 1790-1839, Aberffrd, Bedwlwyn, a Phantgerdinen), bardd a thelynor,²⁵ hwnnw gafodd ei addysg mewn ysgol a gedwid gan ei frawd yng nghyfraith, Rhys ab Ifan (1799-1867), ail fab Edward Ifan Ton-coch (1716-98), yr hybarch fardd a gweinidog Hen Dŷ Cwrdd; Rhys ab Ifan, yntau'n dipyn o fardd neu'n fydryddwr, yn briod â chwaer Richard Williams, ill dau'n blant Hywel Williams Aberffrd. Ac nid beirdd yr Hen Dŷ Cwrdd yn unig a oedd yn tystio i'r cyswllt yma â'r oes o'r blaen yn y cwm, oblegid yn ôl yr hanes, Hywel Jones (1791-1873), sadler ar y Gadlys²⁶ ac englynwr da a fu'n hyfforddi William Morgan y Bardd, blaenor a chodwr canu Bethania, capel y Methodistiaid Calфинаidd yng nghanol y dref, capel Alaw Goch a oedd yn briod â chwaer William Morgan. Nac anghofier ychwaith dras lenyddol Alaw Goch ei hun a ddaeth yma yn grwtyn ifanc o'r Fro i weithio gyda'i dad, hwnnw, fel y dangosodd Leslie Davies yn ddiweddar,²⁷ yn grefftwr, yn werinwr ac yn fardd gwlad cwbl nodweddiadol. Yn y 'sêl a'r ynni eisteddfodol' yma a brwdfrydedd y cymdeithasau llenyddol, y mae'n hawdd anghofio'r mynd a dod llenyddol poblogaidd a oedd yn dal mewn bri, megis y tribannau a'r englynion achlysurol ac ymgomniol sy'n nodweddu cymdeithas y bardd gwlad. Nid ysgafnder oedd y canu ymgomniol hwn bob amser. Dyma Eiddil Llwyn Celyn yn gofyn cymwynas gan Gynonwyson a gadwai ysgol ar pryd yn Abernant:

PENILLION

A anfonwyd gan G. Lewis, gyda dwy efeilles iddo i'r ysgol ar ben tymor talu, gydag ateb y meist'r i'r unrhyw. Enwau yr efeillesau oedd Rachel a Lucy.

Dau swllt a phedair ceiniog,
Yn siwr sydd bris afrywiog;
Tosturiwch meist'r wrth ddyn gwan
Na fyddwch annhrugarog.

Cymerwch dau o sylltau,

²⁴ *Cyfoeth Cwm*, td. 24, *Cymru*, 8 (1895), td. 42, *Ymofynydd* 1882, td. 228.

²⁵ Er ei fod yn eisteddfodwr brwd ac yn cyfrannu yn y bywyd diwylliannol traddodiadol, yr oedd cyd-destun Richard Williams yn wahanol i'r mwyafrif o'r lleill, yn amaethwr llwyddiannus ac yn ffigur cyhoeddus.

²⁶ Gw. Ben Morus, *Enwogion Aberdâr*, td. 33.

²⁷ '“A touch of salt”, the story of Dafydd Williams, 1775-1857', yn *The land your fathers possessed*, 115-40.

Gan Lucy'm chwaer a minau;
Na chodwch ragor am ein dysg –
Mae pob o wisg yn eisiau.

ATEB

Clyw Rachel, eneth fwynaf,
A thithau Lucy lwysaf, –
Cwtogi hur y gweithiwr chweg,
Nid ydyw'n deg, dywedaf.

Eich cais nis gallaf omedd
Tro hyn i chwi rai glwyswedd;
Waeth i chwi geisio 'nawr mor dlws,
Am agor drws trugaredd.

Ond nid trugaredd gwedy'n
Ystyriwch blant, fod undyn
Yn trwsio'i frawd yn hardd ei lun,
A byw ei hun mewn newyn.

Nawr pe ataliai'n ddiau
Bob un eu dwygeiniogau, –
Awn i wrth roi mor rhad eich dysg.
*Heb fara, gwisg, na 'sgidiau.*²⁸

Soniwyd eisoes am y beirdd yn canu wedi damwain Carw Coch yn 1861, ac englyn Alaw Goch,

O!r bôl ffol a'r ebolyn – dan neidio
Yn nwydwyllt a sydyn,
Ciciodd, fe daflodd y dyn –
Y Carw, megis coryn.

ac y mae amryw enghreifftiau o dribannu yn *Cyfoeth Cwm*, e.e. tdau 23-24 ac ambell bennill lleol yn *The land your fathers possessed*, tdau 190, 192.

I'r berw llenyddol yma, ac i'r gymuned farddol hon, y daeth y bachgen ifanc Thomas Evans o barthau Aberteifi. Bwriadwyd ef i fynd i'r môr ond dihangodd o'i long ym Milffwrdd a llwyddo i ddod ar y trê'n i Gaerfyrddin ac yna i Aberdâr gan anfon llythyr ar gân at ei fam i ddweud wrthi ble roedd wedi cyrraedd. Y crwtyn hwn oedd Telynog, a aned yn 1840 ac a fyddai tua 13 neu 14 oed y pryd hynny. Cafodd le i fyw yng Nghwmbach a bu'n gweithio dan ddaear er gwaethaf ei iechyd

²⁸ Bu farw George Lewis, Eiddil Llwyn Celyn, yn 1858 yn 32 oed gan adael gweddw a thyaidd o blant. Cyhoeddodd ei frawd William (Cawr Dar) a Carw Coch gasgliad o'i gerddi, *Telyn y Gweithiwr* (Aberdâr, 1859), er budd ei deulu.

bregus hyd ei farw yn Ebrill 1865. Daeth Telynog yma o deulu o feirdd (canodd ei fam farwnad iddo), a theulu ag argyhoeddiadau radicalaidd, ac mae'n siŵr fod y ddeubeth wedi'i helpu i ddod yn rhan o'r gymuned farddol eisteddfodol ac i elwa ar yr addysg a'r gynhafiaeth a gynigiai'r rhwydwaith hwnnw. Cymuned addysgu oedd hon, a'r cymdeithasau a'r eisteddfodau'n gyfryngau'r addysg honno, yn ysgolion barddol, os mynner. Ond yn achos Telynog bu'r gefnogaeth yn fwy penodol, oherwydd noddwyd ef yn fuan wedi iddo ddod i Aberdâr gan Hywel Williams Pantygerdinen, yntau'n englynwr medrus a mab Gwilym Ddu Glan Cynon, Y Dryw, ac felly'n un a allai olrhain ei dras lenyddol yn ôl dros sawl cenhedlaeth. Diau i Telynog glywed llawer am draddodiad llenyddol y cwm ganddo. Hywel Williams a oedd yn gyfrifol am olygu a chyhoeddi'r casgliad cyntaf o gerddi ganddo yn 1866, *Barddoniaeth Telynog* gyda bywgraffiad byr ohono; cyhoeddwyd ail gasgliad, *Tannau y delyn a dorrwyd*, yn 1898.

Tua 1854 hyd 1865; rhyw gwta ddeng mlynedd, felly, oedd ei yrfa ac er mor hawdd yw gadael i chwithdod gweld torri tannau telyn ifanc lywio barn, yn enwedig o gofio iddo ef ei hun ganu 'Prudd-Gân' 'Blodeuyn bach wyf fi mewn gardd, Yn araf araf wywo', a ddaeth yn 'ffrâm am fywyd Telynog',²⁹ y mae'n wir dweud iddo feistroli arddull farddonol ac eisteddfodol dderbyniol ei gyfnod a bod yn rhyfeddol o gynhyrchiol a llwyddiannus mewn oes fer. Bardd yr addewid fawr oedd Telynog i'w gyfoedion, ond y mae'n amheus a fyddai wedi cyrraedd y brig pe cawsai fyw. Y mae cryn amrywiaeth yn nhestunau ei gerddi – rhyddhau'r caethion, rhyddid gwlad Pwyl, Garibaldi a phynciau eraill gwleidyddiaeth boblogaidd y dydd, canu moesegol, ysgrythurol, mawl i deuluoedd ac unigolion, a chanu mwy personol (ond confensiynol) – ond rhyddieithol yw arddull ei bryddestau a llawer o'i gerddi hir, a phrin yw ei ddychymyg barddonol. Y mae'n fwy llwyddiannus yn ei gerddi rhydd byrion ac efallai mai fel bardd caneuon a cherddi cellweirus, 'digrif' y byddai wedi gwneud enw iddo'i hun.³⁰ Yr oedd yn englynwr medrus gyda phertrwydd ymadroddi cofiadwy a diau i nifer

29 *Cyfoeth Cwm*, td. 64.

30 Pwysleisia D.Jacob Davies, *Cyfoeth Cwm*, td. 64, mai 'bardd digrifwch a llawenydd oedd Telynog' a dyfynna'r traddodiad lleol 'mai tipyn o "dderyn" oedd bardd ac mai *façade* dros dro oedd y prudd-der a ddefnyddiwyd i guddio hynny.'

ohonynt fyw ar lafar am gyfnod. Wedi'r cwbl, ef biau'r llinell enwog am gwm Rhondda:

A chwm culach na 'cham ceiliog'.

Ond dengys gyrfu Telynog gryfderau a gwendidau addysg farddol yr eisteddfodau a'r cymdeithasau. Hyfforddi beirdd i lynu wrth batrwm ieithwedd a thestun a wneid trwy'r cyfrwng eithaf cyfyng hwn a oedd yn dibynnu ar ei adnoddau mewnol ei hun. Nid oedd dim i herio cynnwys na mynegiant cerddi'r beirdd yn yr addysg honno, a heb hynny, anodd fyddai i neb ddringo allan o gyffredinedd y canu.

Drych o'r gymdogaeth oedd y gymuned werinol hon a fu'n lloches i Telynog – brodorion a mewnfudwyr, glowyr a meistri, capelwyr dwys a doniol a thafarnwyr, pobl a oedd yn ymwybod â seiliau cyffredin eu bywydau amrywiol. Dyma, meddai Ifor Parry, 'Oes Aur' cydberthynas diwydiant a diwylliant Cwm Cynon.³¹ Ond yr oedd awel hinsawdd newydd i'w chlywed a nifer o dueddiadau'n dod at ei gilydd i beri newid awyrgylch. Yr oedd y boblogaeth yn dal i gynyddu'n gyflym – 37,704 yn 1871, 40,906 yn 1891, a 43,557 yn 1901, ond yr oedd natur y cynnydd hwn yn wahanol i'r hyn a fuasai gynt gyda chyn lleied â 38% bellach yn Gymry Cymraeg. Dwysáu yr oedd anfodlonrwydd ac anniddigrwydd y glowyr, a'u cwynion am amodau gwaith, sefydlogrwydd cyflogau a system y *truck* yn eu harwain hwy i undebaeth gadarnach ac yn tywys y meistri glo hwythau i greu cyd-gwmnïau mawrion, y *combines* nerthol, i warchod eu buddiannau. Yr oedd yr hen 'baternaliaeth' (*paternalism*) yn diflannu o'r ddwy ochr. Yr oedd y werin hon, ar ôl etholiad 1868 pan anfonodd Merthyr ac Aberdâr Henry Richard i'r senedd drostynt, yn tyfu'n fwyfwy milwriaethus wrth i'r Amalgamated Association of Miners ymsefydlu yma yn 1869 a thrwy'r 1870au ar ôl streic fawr 1871 gwelwyd nifer o streiciau ynghylch amodau cyflogaeth. Dyma'r cyfnod y daeth William Abraham, 'Mabon', i amlygrwydd yn asiant y glowyr a'i ethol i'r senedd yn 1884 – Mabon gyda'i gred y gellid greu partneriaeth rhwng llafur a chyfalaf er lles eu buddiannau cyffredin a chydai apêl at gyfundod diwydiant a'r diwylliant Cymraeg. Ni ddaethai dydd Sosialaeth

31 R. Ivor Parry, 'Aberdare and the industrial revolution', *Glamorgan Historian*, gol., Stewart Williams, 4 (1967), 194-204, td. 198.

eto a daliai llawer o'r gweithwyr radical eu syniadau yn ddrwgdybus o'r tueddiadau hyn a oedd yn graddol ledu'r bwch rhwng Rhyddfrydiaeth Gymreig Mabon a Sosialaeth Brydeinig ddogmataidd. Y mae'r diwylliant poblogaidd hwn i'w weld yn eglur yn y wasg newyddiadurol a gododd wrth iddi ymateb i'r angen am bapur newydd a fyddai'n ei uniaethu ei hun ag achos y glowyr ac yn adlewyrchu strwythurau newydd undebaeth. Aethai *Gwladgarwr* y genhedlaeth flaenorol yn rhy ddof i'r to newydd o weithwyr ac nid oedd yn cwrdd â'u dibenion hwy; yr oedd wedi dod yn rhan o'r sefydliad pan sefydlwyd *Tarian y Gweithiwr* yn bapur wythnosol yn 1875. Gosodwyd polisi'r papur yn ddiflewyn ar dafod yn y llith olygyddol gyntaf, 15 Ionawr 1875. Yr oedd i ofalu am gydwbybod y gweithiwr, fel 'TARIAN yn ngwyneb unrhyw ymosodiad arni gan Eglwysyddiaeth orwancus, ac offeiriadaeth ymhongar *Feudalaidd*'. Honnai mai ar faterion ymarferol yn fwy nag ar lenyddiaeth a barddoniaeth y byddai'r pwyslais gan fod yr eisteddfodau'n difa'r ynni creadigol yr oedd angen ei ryddhau i ddatrys problemau gwaith a bywyd.³²

Ond y gwir yw fod *Tarian y Gweithiwr* heb gydnabod natur y gynulleidfa y gobeithiai ei gwasanaethu ac fe barhaodd i gynnwys adroddiadau am hanes y capeli a'r eisteddfodau, hanes lleol, nofel gyfres, colofn farddol a gwersi gramadeg ynghyd ag adroddiadau cyfrinfeydd undeb. Yr oedd y bywyd Cymraeg yn dal yn fywyd cyfunol, a chôr a chân, y capel yn ganolfan gymdeithasol ond heb ddisodli'r dafarn yn llwyr, eisteddfod a chymdeithas lenyddol, a Maboniaeth gymodlon a gwleidyddiaeth ryddfrydol radicalaidd, a'r elfennau hyn yn edafedd a oedd yn dal y gymuned Gymraeg at ei gilydd. Y mae gyrfa ambell un yn amlygu nodweddion y diwylliant amlweddog hwn ond yn dangos hefyd y newid a oedd ar droed..

Tua 1880 daeth Thomas Evans arall o barthau Aberteifi i Aberdâr, llanc ifanc yn ceisio gwaith ac yn cael lle yn lanhawr injans ar y GWR i gychwyn ac wedyn yn löwr. Yr oedd yn nai i'r Thomas Evans arall a ddaethai yma tua 1850, sef Telynog. Pa fath o ddiwylliant a oedd yn ei ddisgwyl yng nghwm Cynon, yng nglofeydd Cwm-bach, ac yna yng Nghwmaman? Dyma a ddywed ei gyfaill Parcwysen mewn llyfryn bywgraffyddol a luniodd i'r Tom Evans hwn, neu 'Tel',

32 Gweler 'Argraffu yn Aberdâr', td .13-14.

a fu farw yn 1927.³³ Pan ddaeth yma yn yr 1880au

Yr oedd y cwm yn nodedig am ei ysbrydiaeth i symbylu beirdd a llenorion ieuainc. Yn wir wele gyfnod deffroad Tel fel bardd, cerddor a gwleidydd.³⁴

A dyna dair cainc y diwylliant wedi'u dwyn ynghyd, y diwylliant barddol a'r diwylliant corawl wedi ymblethu yn y bywyd diwydiannol. Yr oedd eisteddfodau'r Carw Coch mewn bri a llyncodd Tel *Ysgol Farddol* Dafydd Morgannwg. Enillodd ei le yn fardd aml ei gadeiriau a'i wobrau am ei bryddestau a'i gywyddau, ac yr oedd yntau'n englynwr medrus – a hynny nid yn unig yn ymarfer eisteddfodol. Dyma ei englyn i'w fab a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'i gladdu mewn bedd anhysbys:

RHYWLE YN FFRAINIC

Ym mhau alaeth ymholaf – am wely
Fy milwr anwylaf:
Yn y gwyll fy hunan gaf,
Ai Rhywle yw'r gair olaf?

Yr oedd Tel yn fardd o'r iawn ryw. Llawn mor fynych oedd ei lwyddiannau eisteddfodol wrth arwain corau a bu'n arweinydd poblogaidd cymanfaoedd canu. Yr oedd yn areithydd huawdl dros hawliau'r glowyr, yn Asiant a chynrychiolydd cadarn, ond er hynny yn un na allai gefnogi *Syndicalism*, *Direct Action* na defnyddio streic yn arf. Gwelai beryglon creu'r *combines* ond ofnai rym yr ymateb yn yr undebau llafur hwythau. Yng ngyrfa ddiwylliannol a gwleidyddol Tel gwelir drych o hanes cymdeithasol y cymoedd.

Disgrifiodd Parcwysion fel yr oedd y gymdeithas farddol yn ffynnu pan ddaeth Tel i'r fro:

Man cyfarfod a lle i feirdd y dydd a'r broydd cyfagos i grynhoi at i gilydd oedd Aberdâr y dwthwn hwnnw. Yr oedd enwau a thraddodiadau am lu ohonynt ar lafar, ac hyd yn oed ar wefusau'r plant ar y cyffiniau hyn.³⁵

Dim ond pymtheng mlynedd oedd er pan fu farw Telynog, ac y mae Parcwysion yn enwi rhai o'r

33 Tom Williams ("Parcwysion"), *Cofio "Tel"*, Mr. Tom Evans ("Tel"), *Cwmaman Aberdar*, Aberteifi, [c. 1928].

34 *Cofio "Tel"*, td. 10.

35 *Cofio "Tel"*, td. 10.

beirdd ac arweinyddion corau y byddai Tel wedi cyfarfod â hwy. Yr hyn a bwysleisia yw fod parhad yn niwylliant Cymraeg y cwm a pha mor hanfodol i brifant bardd oedd yr ymwybod yna ag olyniaeth lenyddol, neu hyd yn oed etifeddiaeth lenyddol. Nid mater annelwig o anadlu awyr llenyddol ydoedd hyn ond o ymwneud y naill do â'r llall mewn cwmniaeth anffurfiol weithiau, mewn paratoi at eisteddfodau, a thrafod y cynhyrchion, ac mewn dosbarth mwy penodol i ddysgu o werslyfr adnabyddus un arall o'r brodorion, cyfoeswr â hwy, sef *Yr Ysgol Farddol* Dafydd Morgannwg; ac onid William Morgan y Bardd oedd athro barddol cyntaf Dyfed a'i frawd Jonathan, 'Nathan Wyn', dau fachgen a oedd yn aelodau ym Methania ac a fyddai maes o law mor allweddol yn hanes llenyddol y cymoedd?

Ond ni allai'r gymdeithas a fu'n fodd i gynnal ac i feithrin Telynog, Tel ac eraill barhau yn wyneb newidiadau'r byd diwydiannol a gwleidyddol, newidiadau yr oedd Tel yn dyst ohonynt. Erbyn diwedd y ganrif yr oedd Mabon yn colli ei hygredd wrth i'r gynulleidfa yr oedd ei apêl ati, ac yr oedd yntau'n rhan ohoni, ddarfod o'r tir ac wrth i Aberdâr ddatblygu yn un o ganolfannau'r ILP a'r South Wales Federation of Miners. Nid oedd Tel a'i debyg yn gysurus yn y gymdeithas newydd hon. Enillodd ef mewn eisteddfod leol am bryddest ar Keir Hardie ond cyffesodd pe bai wedi dweud yn onest yr hyn a oedd yn ei galon mai colli'r gadair a fyddai wedi digwydd.³⁶ Dal i gynyddu yr oedd y boblogaeth ond gyda'r mewnfudo bellach ar y fath raddfa nes gwanychu'r bywyd Cymraeg yn ddirfawr. Wrth fwrw trem yn ôl o 1927 gwelodd Parcwysion fod yr hen fywyd eisoes yn dechrau dadfeilio yn yr 1880au:

Odid fawr nad ellid ystyried y dyddiau hynny fel diwedd oes aur llên, a chân a barddas y cwm o Aberpergwm hyd Bontypridd, a'r awyrgylch hithau yn dwym cyn oeri nemor o'r hen wres llenyddol.³⁷

Yr oedd natur ymwneud pobl â'r diwylliant Cymraeg yn newid, o fod yn gymdeithasu gan ymarferwyr, yn feirdd a thraethodwyr, i gymdeithasu trafod a gwranddo. Ffynnai'r math yma o

³⁶ *Cofio "Tel"*, td. 26.

³⁷ *Cofio "Tel"*, td. 10.

gymdeithas yn y capeli, ond yr oedd Cymdeithas Ddadleuol Aberdâr: the Aberdare Debating Society ychydig yn wahanol yn yr 1880au. Grŵp, tua 25 neu 30 o ddynion ifanc dosbarth canol 'coleri gwyn', yn eu hugeiniau, oedd y rhain a fyddai'n cyfarfod yn yr 1880au yn Dance's Coffee Tavern neu'r Castle Coffee Tavern a manau tebyg, i drafod a chynnal dadleuon ar faterion y dydd, megis lleoli coleg prifysgol yng Nghaerdydd, ysmegu, agor tafarnau ar y Sul. Cynhalient eu cyfarfodydd bob yn ail yn y Gymraeg a'r Saesneg gan anfon adroddiadau cyson i'r *Gwladgarwr* a'r *Merthyr Express*. Ar un olwg mae'r gymdeithas yn nodweddiadol o gymdeithasau hunan-addysgu a chynnydd personol oes Victoria. Yn wir, y mae'n drawiadol gynifer o'r grŵp a oedd yn athrawon ysgol neu a aeth ymlaen i yrfaedd yn weinidogion, clerigwyr, athrawon ac arweinyddion y bywyd cerddorol.³⁸ Ond yr oeddent yn dal yn ymwybodol fod yna gymdeithasau llenyddol ac y mae'n ddi-ddorol mai eu henw arnynt eu hunain oedd Clic y Gadlys, ar batrwm Clic enwocach y Bont ym Mhontypridd. Yr oedd rhai o'r aelodau'n arfer enwau barddol, megis Darfab, Ap Brythonfryn³⁹, Didymus Wyn ac y mae gweld fod yr Ifano Jones ifanc yn eu plith yn awgrym fod y trafodaethau Cymraeg yn rhai o ddifrif Tystiolaeth yw'r Gymdeithas i'r graddau yr oedd y cymdeithasau llenyddol yn colli eu swyddogaeth ac yn ildio'u lle i fath newydd o gymdeithas ddiwylliannol.

Erbyn troad y ganrif yr oedd y gymuned farddol yn darfod ond parhâi grwpiau barddol, cylchoedd o gyfeillion llengarol fel y dywedid, a oedd yn dal i gwrdd â'i gilydd ac yn ymgasglu o gwmpas athro. Ond byddai'r trosglwyddo crefft ac adnabod yr olyniaeth yn fwy hunanymwybodol, yn fwy trefnedig, yn awr. Dyna sut y gwelai Ben Morus, 'Myfyr Teifi' (1881?-1913), ei swyddogaeth. Gŵr o gyffiniau Llanbedr-Pont-Steffan oedd ef a ddaethai yn argraffydd at Ab Hefin. Dychwelodd i Geredigion i swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth tua 1909 a bu farw yn 1913. Treuliodd wyliâu Nadolig 1902 yn Aberdâr gyda'i gyfeillion barddol ac ysgrifennodd yr hanes mewn ysgrifau yn y cylchgrawn *Cymru* gyda llun o'r cyfeillion, yn eu plith Eurfab a Glan

38 Gweler atgofion John Devonold (1863-1936) yn *Merthyr Historian*, 22 (2011), 87-127, tda 97-99.

39 Mab, y mae'n ymddangos, i Brythonfryn, Parchg. Daniel Griffiths, bardd adnabyddus ac ysgrifennydd cyntaf côr mawr Caradog; gweler Ben Morus, *Enwogion Aber Dâr*, tda 16-17, *Cynnwrf Canrif*, tda 164-69. Parchg. John Walter Moore oedd Darfab.

Cynon.⁴⁰ Nid oedd Ben Morus ei hun yn fawr o fardd ac ychydig o sôn sydd yn yr erthyglau am brydyddu. Er iddynt fwynhau cwmni ei gilydd a mynd i oedfa fore Sul, uchafbwynt y daith oedd ymweld â mynwent Aberdâr, 'Macpelah y Deheudir', ac oedi ymhlith beddau beirdd a llenorion yr oedd eu henwau'n dal i atseinio yng nghlustiau Ben Morus a'i gyfeillion, fel yng nghlustiau Nathan Wyn a Pharcwyson yn y blynyddoedd hyn:

O amser Dafydd ab Ieuan Ddu (1553) hyd yn awr, mae'r gymdogaeth hon wedi bod y fagwrfa ac yn gartrefle i feirdd a llenorion goreu'r genedl.⁴¹

Ymateb fel hyn a ddisgwylid gan ŵr yr oedd ei fryd ar ymweld â chartrefi a broydd enwogion a llunio ysgrifau arnynt. Penllanw'r math yma o ymchwil oedd ei gasgliad o fywgraffiadau, *Enwogion Aber Dâr*, sy'n cynnwys llawer o wybodaeth a aethai ar goll oni bai am ei lafur.

Ar aelwyd Eurfab a'i rieni yn Aberaman y bu Ben Morus yn sefyll. Glöwr oedd ef, yn aelod yng nghapel Ynyslwyd lle'r oedd y gweinidog Twrfab, R.E. Williams, yn crynhoi 'nythaid o feirdd o'i gwmpas'.⁴² Yr oedd Eurfab a Glan Cynon (John Rees, a gadwai siop lyfrau yn y farchnad) yn barddoni'n gyson ac ymddangosai eu gwaith yn rheolaidd yn *Cymru*. Ond yn y grŵp o gyfeillion llengarol yr oedd Rhuddonian o Aberpennar ac ef, mewn gwirionedd, yw'r arwydd egluraf o'r newid a oedd yn digwydd yn y gymuned ddiwylliedig Gymraeg. Disgrifir ef yn 'athro cynorthwyol Dosbarth Darllen Cymraeg Mountain Ash dan nawdd Pwyllgor Addysg Gelf y Sir'; prin fod rhaid oedi gydag arwyddocâd y disgrifiad – nid tafarn na chapel, ond ysgol; nid cymdeithas lenyddol nac eisteddfod na chyfansoddi ond addysgu ffurfiol a darllen. Yn *Cymru*, cylchgrawn diwylliannol mwyaf poblogaidd y dydd, y cyhoeddwyd hanes ymweliad Ben Morus, cylchgrawn, fel *Y Geninen*, ar gyfer darllenwyr unigol, nid fel yr hen *Seren Gomer* ar gyfer cymuned.

Yr oedd y criw bach tra pharchus yma wedi cwrdd â bardd arall o Aberdâr ar y nos Sadwrn a chafwyd amser difyr iawn gyda'i gilydd. Aeth yn hwyr arnynt a mawr oedd y sbri y bore wedyn

40 'Tro i Aberdâr', 24 (1903), 229-32, 267-8, 'Mynwent Aberdâr', 25 (1903), 29-34.

41 *Cymru*, 24, td. 231-2.

42 D. Ben Rees, yn *Cwm Cynon*, td 76. Lluniodd Eurfab gerdd goffa i'w weinidog.

wrth ddarganfod fod y bardd wedi anghofio eillio gogyfer â'r Sul:

Tafod Ieuan Glan Teifi, – lanc enwog, –
Glan Cynon a'i 'stori, –
Wit Eurfab – wnaeth fi'n fabi, –
A fy *shave* anghofiais i.

Y mae llun ac ysgrif arall yn *Cymru*, 'Ysgol Farddol Aberdâr' yn 1908, dosbarth dysgu barddoni gan ddal i astudio *Yr Ysgol Farddol*, a mwynhau barddoniaeth wrth iddynt gyfarfod yn nhŷ eu hathro, sef yr un Ab Hefin ag a anghofiodd siafio y nos Sadwrn honno. Yr oedd y cyd-gymdeithasu yn gyfeillach lawen ond ni ellir peidio â sylwi mai dosbarth ffurfiol sydd yma, athro, grŵp a llawlyfr, a diben dysgu'r grefft yw diddanwch personol, nid cyfranogi o ddiwylliant cymdogaeth. Y mae aelodau'r grŵp⁴³ yn arwydd o'r un newid yn y gymdeithas ddiwylliedig Gymraeg – glowyr, goruchwyliwr y parc cyhoeddus, barbwr, ysgrifennydd cain ('caligrapher'), argraffydd, ond mae rhai ohonynt yn actorion mewn cwmni drama ac yn fwy arwyddocaol eto, ddau sy'n ysgrifenyddion cymdeithas newydd y Cymmrodorion. Mewn gwronedd, yr oedd yn y cylch fwy o feirdd na'r criw bychan o wyth sydd yn y llun. Cafodd grŵp o 22 dynnu eu llun (yn yr un man yn y parc, fe ymddengys) a chynhyrchwyd cerdyn post, 'Cymdeithas y Beirdd Aberdâr Gorphenaf 1909'.⁴⁴ Y mae wyth 1908 yma, a 'Tel' ac 'Eurfab' hefyd (nid wyf wedi gallu rhoi enwau ar bob un o'r lleill hyd yn hyn). Er gwaethaf y teitl 'Cymdeithas', yr argraff a geir yw mai casgliad o unigolion yw'r rhain, efallai wedi dod at ei gilydd ar gyfer y llun, yn hytrach na chymdeithas lenyddol yn yr hen ystyr (nid oes lle arbennig o amlwg i Ab Hefin), ond y mae'r grŵp, megis ysgol farddol Ab Hefin, yn bont rhwng gweddillion yr hen fywyd llenyddol ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chyfryngau'r bywyd diwylliannol newydd a gododd ddechrau'r ugeinfed ganrif. Bydd dau enw'n crynhoi'r newid.

Goruchwyliwr, 'spector' y parc cyhoeddus, 'paradwys fechan Aberdâr', a dyfynnu Iwan Goch, oedd Tom Williams, 'Parcwyson', rhyw fath o enw barddol gwamal ar y dechrau ond un a

43 *Cymru*, 39 (1910), 133-4. Y mae Ben Morus yma eto, a Darren Fab yn eu plith. Yr oeddent oll yn feirdd cynhyrchiol a gwelir eu gwaith hwythau yn *Cymru* – Iwan Goch (John Davies) – ef a ysgrifennodd yr hanes yn *Cymru*, Gwilym Alma (William Lewis) a'i frawd, Ioan Awst (John Lewis), Afanydd (John Morgan).

44 Hoffwn ddiolch i Mr Gareth Thomas, Abercwmboi, am ddwyn y llun hwn i'm sylw.

ddefnyddiai ef yn gyson. Ym Mhontarddulais y ganed ef, tua 1870, ond yn Aberdâr y treuliodd ei fywyd ('lodge' uchaf y parc oedd ei gartef nes i afiechyd ei lorio) hyd ei farw yn ysbyty Abertawe yn 1945 ac yma y magwyd ei blant.⁴⁵ Ni wn faint o addysg ffurfiol a gafodd ond ni ellir amau ei allu na rychwant ei ddarllen ac mae'n amlwg mai ysgrifennu oedd ei ddifyrrwch pennaf, yn ysgrifau i *Cymru* a manau eraill, yn draethodau a cherddi eisteddfodol, yn atgofion, ac emynau. Bu'n teithio tipyn, mae'n ymddangos, a'r argraff a geir o'i ysgrifennu yw o w'r darllengar, myfyrgar a chryn graffter barn ganddo am dueddiadau syniadol a diwinyddol y dydd. Cyhoeddodd lyfryn 50 o dudalennau yn 1910 ar *Crefydd ein Tadau*. Myfyrio ar hanes a rhinweddau ymneilltuaeth Gymreig y mae, ond heb fod yn ystrydebol nac yn rhamantu. Modernydd (yn ei ddydd) ydyw, yn dilyn agwedd yr esblygwyr ac yn credu fod Duw'n dal i'w ddatguddio ei hun. 'Nid yw datblygiad Duw ond dechrau, a datblygiad dyn [yn ddeallusol ac yn foesol] ar y trothwy', meddai. . Cynyddu y mae tystiolaeth yr eglwys, fel y mae 'delfrydau a safonau moesolach, safbwyntiau perffeithiach a datblygiad sancteiddiach', ac y mae Parcwysion yn ceisio troedio llwybr ymneilltuaeth draddodiadol ei ffurfiau tra'n ymhyfrydu yr un pryd fod datguddiadau newydd yn esgor ar ddatblygiad parhaus gwirioneddau hen. Rhaid gwahaniaethu rhwng diwinyddiaeth a chrefydd, meddai, ac y mae dydd yn dod pan na fydd cred yn cyfyngu meddwl, na chyffes yn cadwyno barn, na dogma i luddias tyfiant bywyd a chrefydd. 'Mae Testamentau goreu [Duw] heb eu hagar!'. Nid oes dim arbennig yn y syniadau hyn ond dangosant fel yr oedd Parcwysion yn fyw i feddwl diwinyddol yr oes.⁴⁶ Yr oedd eisoes wedi cyhoeddi 'Syniad gweithiwr am y dduwinyddiaeth newydd' a byddai 'Perthynas llafur a Christionogaeth' (pwnc y ceir awgrym ohono yn *Crefydd ein Tadau*) yn dilyn yn 1917.

Ymddangosodd ei *Adgofion am Ddiwygiad 1904-'05 yn Nhrecynon* yn 1913 (yr oedd eisoes wedi

45 Yn eisteddfod genedlaethol Caerdydd yn 1938, ystyriwyd stori fer ei fab David Phillip Williams 'yn orau o ddigon allan o 45 o gyfansoddiadau, ond ni ddyfarnwyd y wob'r iddo oherwydd iddo fethu profi mae [sic] ef oedd ei hawdur.' Cyhoeddwyd hi yn yn fuan wedyn gyda nifer o storiâu eraill ganddo a nodyn bywgraffyddol yn tystio i'w brofiad fel ysgrifwr a gŵr cyfarwydd â gwledydd tramor; gweler *Tourmalet ac ysgrifau eraill*, Caerdydd, 1939, gyda Chyflwyniad gan y Cyhoeddwr.

46 Gwelir trywydd ei feddwl yn y llyfrau a enwir ganddo, Wilhelm Bousset, *What is religion?* (1907), Edward Caird, *The evolution of religion* (1893, 1907), William James, *Varieties of religious experience* (amryw argraffiadau), Edwin Starbuck, *Psychology of religion* (1899, 1901). Ar y syniadau diwinyddol hyn gweler R. Tudur Jones, *Ffydd ac argyfwng cenedl*, II, Abertawe, 1982, 29-36.

cyhoeddi llawer o hyn yn *Yr Ymofynydd* yn 1910-1911), un o glasuron hanes diwygiad Evan Roberts. Er gwaethaf ei arddull flodeuog nodweddiadol a'i rethreg or-ymdrechgar, pan dry Parcwyson oddi wrth ei athronyddu i bortreadu pobl a disgrifio achlysuron penodol, gall fod yn afaelgar a dawn effeithiol ganddo i gyfleu ymgom a siarad naturiol. Daeth ef ei hun dan ddylanwad y diwygiad ond yr hyn sy'n ddiddorol yn ei atgofion yw ei gwestiynu. Yr oedd yn amheus o'r modd y mynnai Evan Roberts osod strwythur ac amodau ar waith yr ysbryd ac wrth glywed y diwygiwr yn gweddïo, meddai (td 44), 'Cael profiad o ymwared gwyrthiol yn ddiau oedd ei brawf o atebiad Duw i'w weddi. Onid gweddïo am ddifrod ar ddeddfau Duw yw ymbil am wyrth?' Yr oedd yn amheus o rai o effeithiau'r diwygiad a beirniadai addysg y colegau diwinyddol a oedd yn gwbl academiaidd ei hagenda ond nad oedd yn cymhwyso gweinidogion i fugeilio clwyfedigion edifeiriol. Teimlai fod timau achub y pyllau glo 'yn gymhwysach i drin clwyfau moesol dyn', sef yr hyn a alwn ni yn '*counselling*' (td. 46). Ni chyfyngodd ei fyfyrïo i fywyd y capeli a materion crefydd a diwinyddiaeth. Bu'n wleidyddol ei fryd erioed ac yn 1928 cyhoeddodd draethawd eisteddfodol ar *Rhagolygon yr Iaith Gymraeg*, sef ymateb i adroddiad swyddogol pwysig y weinyddiaeth addysg, *Y Gymraeg mewn addysg a bywyd* (1924). Y mae traethawd Parcwyson yn un manwl a thrwyadl, er yn nodweddiadol rethregol ei arddull, a dangosodd ef mor gyfarwydd yr oedd â syniadau'r dydd ac mor eang y darllenai, ond unwaith eto, yr hyn sy'n nodedig ynddo yw blaengarwch ei farn am le cyfundrefn ddeddfwriaethol i Gymru (a fyddai'n rhagori ar 'lywodraeth estron') i sicrhau lle teilwng i'r Gymraeg yn yr ysgolion a'r colegau cenedlaethol. Erbyn hyn, cenedlaetholwr gwleidyddol yw Parcwyson, yn arddel y Blaid Genedlaethol ifanc, un o'i chefnogwyr cynharaf yn y cwm efallai.⁴⁷

Oedais gyda Pharcwyson oherwydd ei fod yn wŷr craff ei welediad. Darllenai lyfrau safonol ar seicoleg a datblygiad crefydd; a gwyddai beth a oedd yn digwydd ym myd llenyddiaeth Gymraeg o ddarllen y cyfnodolion a llyfrau safonol. Wrth goffáu Tel yn 1929 yr oedd yn ddigon craff ei grebwyll, fel y gwelsom, i ganfod y dirywiad a oedd yn dechrau gwreiddio yn y gymuned farddol

47 Yn Abercwmboi y sefydlwyd cangen gyntaf y de o'r Blaid Genedlaethol yn 1926; gweler Dafydd Ifans, gol., *Annwyl Kate, Annwyl Saunders: gohebiaeth 1923-1983*, Aberystwyth, 1992, td, 11, trn. 2.

yn yr 1880au er gwaethaf y llewyrch ar yr wyneb, a phan aeth ati i dafoli Tel fel bardd, gallai ei osod yn deg yn ei gyfnod, 'cydrhwng dosbarth olaf y 19fed ganrif a chyfnod cyntaf yr 20fed ganrif'. Nid mater syml dyddiadau yw hyn, ond dweud y mae fod Tel wedi methu camu ymlaen i 'ddulliau meddwl ac arddull a gwisg yr Ysgol Newydd', yr hyn a alwai Parcwysion yn 'Ysgol y Macwyaid', hynny yw, i ymadael ag arddull y 'Bardd Newydd' a mabwysiadu moddau ac arddull barddoniaeth symlach a mwy telynegol y cyfnod newydd, yr arddull a gysylltw'n ag Elfed ac Eifion Wyn.

Gwelodd Parcwysion fod yr hen drefn a'r hen arddull yn darfod a bod perygl i feirdd y traddodiad lleol fethu dod o hyd i gartref llenyddol ymhlith y beirdd newydd. Yr hyn yr oedd ei angen erbyn degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif oedd sicrhau fod cymuned ar gael y gallai'r beirdd ganu *ynddi ac iddi*, a'r un a lwyddodd yn hyn o beth oedd athro'r ysgol barddol, Ab Hefin, 'yr Ab', Henry Lloyd, pregethwr lleyg ac argraffydd o Ddolgellau, a oedd â'i fusnes argraffu bach yn Aberdâr. O ran statws, ef fu prifardd y cwm am genedlaethau, bardd y cystadlu mynych a'r athro cydnabyddedig ond â llawer o anian a swyddogaeth y bardd gwlad yn perthyn iddo. Cyhoeddodd amryw gasgliadau o'i gerddi a'i ysgrifau, a bu mynd da ar ei ddarlith hunangofiannol boblogaidd am ei ddwy nain, *Dwy wraig o'r wlad*. Yr oedd yn gynganeddwr rhwydd – 'gwastraffus ei englynion i'r achlysur', meddai un o'r dosbarth am yr athro – ac yr oedd ganddo awen barod; at hynny, yr oedd yn bregethwr ac yn ddarlithydd poblogaidd. Yr hyn a enillodd o fod yn ddarlithydd a bardd ei gymdeithas oedd arddull lithrig, agos-atoch, ac ymadroddi hawdd ac agos at arferion yr iaith lafar. Ond efallai iddo ddioddef fel bardd oherwydd ei gymwynasau i'w gymdeithas, fel y gwelir o'r gwahaniaeth yn ei waith pan gâi ei gyffroi i ganu'n ddiffuant a dwys. Y mae ganddo un neu ddau o emynau gafaelgar (e.e. 'Arhosaf yn nghysgod fy Nuw', 'I bob un sy'n ffyddlon'), ac y mae'n arwyddocaol mai ei gywyddau gorau, ei farddoniaeth orau yn wir, yw'r gyfres o 11 o gywyddau a ganodd dros gyfnod i goffáu ei wraig a fu farw yn 1929. Canu personol sy'n olrhain yn ddiarwybod y broses glasurol o alaru yw'r rhain, cerddi a luniwyd nid i foddhau na beirniad na chynulleidfa ond i dawelu ei wewyr ei hun, a cherddi sy'n dangos y bardd y gallasai Ab Hefin fod.

Y mae sylwadau R. T. Jenkins am gyflwr diwylliant Cymraeg y cwm tua 1917 yn gyfarwydd, fod y seiadau o lenorion wedi peidio yn Aberdâr ac mai *unigolion* bellach oedd yn llenora yn y fro.⁴⁸

Ni ellir *ysgol* o lenorion, ni ellir tradodiad lleol cadarn, pan fyddo nifer llenorion bro wedi mynd yn afrosgo a diganolfan.⁴⁹

Gwir y gair, ond angen y beirdd unigol hyn oedd cael cartref cymdeithasol a chynulleidfa leol, ac angen Cymry Cymraeg y cylch oedd cael cymdeithasu â'i gilydd. Sefydlwyd Cymdeithas Cymmrodorion Aberdâr yn 1907 yn gyfle i Gymry diwylliedig y cylch, neu os yw hynny'n rhy uchel-ael, pobl y pethe, pobl llyfrau, mynychwyr drama, i ddod ynghyd i wrando darlith, i glywed (a gweld) beirdd, i ymarfer eu dawn mewn noson gylchgrawn, a, sylwer, i glywed ambell ddarlith am y traddodiad ac i bererindota'n lleol i fannau'r tadau llenyddol.⁵⁰ Gwasanaethodd Ab Hefin yn fardd gwlad cwm Cynon gyda'i benillion coffa yn y wasg leol, a sicrhaodd fod y Cymmrodorion yn ei gael yn fardd gwlad i'w difyrro gydag ambell englyn fel hwn i Mrs Simpson:

Cares, dewines dynion – a hudodd
Ein Hedward â'i swynion;
Gwell na gorsedd yw hedd hon,
A'i charu hi na choron.

ond yn fwy aml ei gael yn fardd o sylwedd yn ei gywyddau i annerch siaradwyr gwadd a'r englynion 'Lliwiau'r Hydref' adnabyddus a argraffwyd ar garden aelodaeth y gymdeithas:

Ddoe yn wyrdd, yn ei hirddydd, – 'roedd anian
Yn hardd wenu'n ddedwydd:
Brau yw'r dail, a byr yw'r dydd,
Llwydo wna'i dillad newydd. ...

Gwelir, yn lle'r dail gwywlwyd, – ddail eraill
Harddliw ir, fel breuddwyd, –
Dail gwyrdd per, yn lle'r dail llwyd,
Dail gwell na'r dail a gollwyd.

Tua throad y ganrif y daeth Ab Hefin i Aberdâr, i blith beirdd a barchai goffadwriaeth Telynog a'i gyfoeswyr; yn 1908 y tynnwyd llun ei Ysgol Farddol, yr oedd ei haelodau yn bwrw cilolwg yn ôl ond yn gweld beth a oedd yn digwydd o'u cwmpas; bu'r Ab yn gwasanaethu'r

48 Cyfeirio y mae at sylwadau Kate Roberts am ei phrofiad pan ddaeth i Aberdâr yn 1917, *Y Traethodydd*, 88 (1933), 13-19, td. 13. Cyd-destun ei sylw yw fod y canfyddiad poblogaidd o Aberdâr fel canolfan beirdd yn dal yn fyw yn 1917. Dichon mai gorfod wynebu'r wir sefyllfa oedd yr elfen gyntaf yn ei siom yn y lle.

49 'Glyn Cynon', *Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Aberpennar Awst 6-8, 1940*, td. 14.

50 Ar hanes cymdeithas Cymmrodorion Aberdâr gweler *Cwm Cynon*, 261-84.

gymuned Gymraeg newydd hon, yn y wasg ac yn y Cymmrodorion, hyd ei farw yn 1945. Dolen gyswllt yn wir, ac erbyn iddo ef farw yr oedd beirdd eraill wedi codi mantell y diwylliant Cymraeg – Morgan Price ('Meurig Prys'), Jacob Davies, Dewi Aeron, Glannant Jones, Eirian Davies, Tilsli. Beirdd cenedlaethol oedd y rhain ond nid yw heb ei arwyddocâd mai fel tim *Aberdâr* y cafodd rhai ohonynt eu hadnabod yn un o raglenni cyntaf Ymryson y Beirdd. Ac fel beirdd eisteddfod genedlaethol 1861, llwyddasant hwythau i briodi'r cenedlaethol a'r lleol, ac fel beirdd cenedlaethol 1861, hwy a fu'n hybu Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr yn 1956.

Yr hen gymdeithasau llenyddol a'r ysgolion barddol a fu'n gyfryngau trosglwyddo'r ymdeimlad o ymhyfrydu yn y diwylliant Cymraeg o'r naill genhedlaeth i'r llall. Wedi darfod eu dydd hwy, parhawyd y gwaith gan Gymdeithas y Cymmrodorion; a gallaf finnau dystio, fel y gwnaeth Wallis Evans am ei gyfnod yntau yn y 1920au,⁵¹ fod cyfarfodydd nos Wener y Cymmrodorion yn y Café Mona wedi gwneud llawer i leddfu unigrwydd disgybl Cymraeg yn yr ysgol ramadeg yn y 1940au a meithrin ynddo y sicrwydd fod y diwylliant Cymraeg yn rhywbeth byw o'i gwmpas ac yn rhywbeth i ymserchu ynddo.

A heddiw? – wel, dyna pam yr wyf mor falch fod y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yma, yn Ysgol Rhyd-y-waun.

Brynley F. Roberts
Aberystwyth

51 'Aberdâr yn y dauddegau', *Taliesin*, 84 (1994), 94-7. Cymharer ei ysgrif, 'Bwrlwm a dygnwch bro', *Cwm Cynon*, 11-26.